



TGAU – **NEWYDD**

3010NA0-1



W17-3010NA0-1

LLENYDDIAETH GYMRAEG

UNED 1: Barddoniaeth

HAEN UWCH

DYDD GWENER, 13 IONAWR 2017 – BORE

1 awr 15 munud

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb pinc 16 tudalen.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Un cwestiwn gorfodol ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn. Dangosir y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

1. Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.
Yn y cerddi, mae'r ddau fardd yn cyfeirio mewn gwahanol ffyrdd at lefydd i fyw.

Cymharwch y ddwy gerdd gan ddangos sut maen nhw'n **debyg** neu'n **wahanol**. Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:

- cynnwys a neges/themâu y cerddi
- sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)
- eich ymateb personol i'r cerddi.

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. **[40]**

Tai Unnos

Sbwriel oes yr iâ oedd y cerrig llyfnion
 orweddai'n flêr hyd lannau'r afon:

sbarion a shafins cŷn a morthwyl y rhewlif
 a siapiodd bob dyffryn ganrif wrth ganrif:

ac â'r sbwriel cododd ein cyndeidiau'n ddyfal
 fwthyn clyd yn nhro'r afon, ar seiliau petryal;

gosod carreg ar garreg rhwng gwyll a gwawr,
 a chynnau tân cyn i'r landlord dynnu'r cyfan i lawr;

hawlio darn o dir a'i godi'n aelwyd,
 drwy nerth bôn braich troi llafur yn freuddwyd:

ar lannau traffyrdd y dinasoedd llwydion,
 ac yng nghesail goncrid swyddfeydd gweigion,

dan bontydd ffyrdd osgoi, mewn meysydd parcio mae rhai
 yn eu dyblau heno hefyd wrthi'n codi tai,

rhoi trefn ar sbwriel dan y sêr,
 hawlio darn o dir â bocsys cardbord blêr.

Iwan Llwyd

Yr Hen Fflat

Roedd yr haul yn cerdded mewn i'r stafell bob bore
 Yn cyrraedd heb gnocio a ni'n ei nabod mor dda,
 A'r lleud yn dod â thusw o sêr i'w ganlyn
 I flodeuo'r nos â phetalau gerddi'r ha'.

Pasiais y fflat yma ddoe. Roedd y ffenest yn dywyll
 A'i gwydrau'n ddu lle gadawodd y stormydd eu staen;
 Roedd y prennau noeth yn pydru, paent wedi cracio
 A golwg ar y waliau, y lle wedi colli'i raen.

Pliciodd y croeso oddi ar y drws a phylodd;
 Mae rhywrai wedi esgeuluso'r lle ers tro;
 Nid yw haul y nos na seren y dydd yno bellach
 Ac eto nid yw'r llenni wedi'u cau yn llwyr yn y co'.

Myrddin ap Dafydd

DIWEDD Y PAPUR